

Estyn – gwranddo, dysgu a newid gyda'n gilydd

Ymgynghoriad cam dau: Trefniadau arolygu Estyn o Fedi 2021 ymlaen

Dyma'r ail mewn cyfres o ymgynghoriadau ynghylch sut gall arolygu gynorthwyo ysgolion a darparwyr eraill orau i reoli'r newidiadau niferus mewn addysg.

Rhwng 2020 a 2024, rydym yn bwriadu gwneud newidiadau i'n gwaith:

- yn ystod y flwyddyn bontio, sef 2020-2021, rydym yn bwriadu atal ein harolygiadau o ysgolion er mwyn i arolygwyr gydweithio ag ysgolion ar y newidiadau i'r cwricwlwm (Cam un)
- ym Medi 2021, rydym yn bwriadu newid ein trefniadau arolygu i gyd-fynd â'r newidiadau i addysg yng Nghymru (Cam dau)
- cyn 2024, byddwn yn arbrofi ag arolygiadau sy'n canolbwyntio ar ddilysu prosesau hunanwella ysgolion (Cam tri)

Ar bob cam, byddwn yn cydweithio â chi i lunio ein cynlluniau. Yn ystod haf 2019, fe wnaethom eich holi ynghylch beth ddylem ei wneud i gynorthwyo ysgolion yn ystod y flwyddyn bontio. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn gofyn am eich barn ar ein trefniadau arolygu o Fedi 2021 ymlaen.

Cyd-destun

Yn 2017, cyflwynom drefniadau arolygu newydd. Ar yr un pryd, ac yng nghyd-destun diwygiadau uchelgeisiol i addysg, comisiynodd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi adolygiad annibynnol o arolygu ysgolion yng Nghymru. Cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad, 'Arolygiaeth Dysgu', ym Mehefin 2018. Mae'n gwneud cyfres o argymhellion ynghylch sut y gallwn addasu ein gwaith i gyfrannu'n adeiladol at ddiwygio addysg. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o'n hymateb i 'Arolygiaeth Dysgu', sy'n canolbwyntio'n benodol ar ein trefniadau arolygu.

Beth yw'r cwmpas?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r sectorau canlynol:

- ysgolion cynradd, gan gynnwys ysgolion meithrin
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol

Nid yw lleoliadau nas cynhelir, addysg gychwynnol athrawon, Cymraeg i oedolion ac awdurdodau lleol wedi'u cynnwys, er y gallai'r adborth lywio trefniadau arolygu yn y sectorau hynny yn y dyfodol.

Bydd ymgynghoriad ar wahân ar gyfer colegau addysg bellach, Dysgu i Oedolion a darparwyr dysgu yn y gwaith yn ystod 2020.

Mae rhai agweddau ar beth a sut rydym yn arolygu yn ofynion cyfreithiol. Byddai unrhyw newidiadau i'r agweddau hynny yn cymryd ychydig yn hwy ac yn destun ymgynghori pellach.

Sut i gyflwyno eich safbwyntiau

Mae dwy ffordd y gallwch roi a chyflwyno eich ymateb:

- 1 Llenwch yr holiadur ar-lein yn <https://www.estyn.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-ein-trefniadau-arolygu-o-fedi-2021-ymlaen>
- 2 Argraffwch y ddogfen hon a'i phostio at:

Swyddog Ymgynghori
Estyn,
Llys Angor,
Heol Keen,
Caerdydd
CF24 5JW

Bydd yr ymgynghoriad yn lansio ar 4 Hydref 2019 ac yn cau ar 2 Rhagfyr 2019. Sicrhewch fod pob ymateb drwy'r post yn cyrraedd Estyn erbyn y dyddiad hwnnw.

Cyfrinachedd

Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei chadw gennym ni ac ni chaiff ymatebion unigol eu rhannu ag unrhyw un y tu allan i Estyn. Caiff y wybodaeth ei defnyddio i helpu i wella sut rydym yn arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Os byddwch yn datgelu pwy ydych, byddwn yn trin hynny'n gyfrinachol.

Gwybodaeth allweddol amdanoch chi

Dewiswch un opsiwn isod sy'n disgrifio orau ym mha rinwedd rydych chi'n llenwi'r holiadur hwn.

Dysgwr	Rhiant/gofalwr	Gweithiwr addysg proffesiynol	Aelod o'r cyhoedd	Arall ✓ Undeb llafur
☐	☐	☐	☐	

Pa sector y mae gennych y diddordeb mwyaf ynddo? (Dewiswch un opsiwn)

Lleoliadau meithrin nas cynhelir	☐	Unedau cyfeirio disgyblion	☐
Ysgolion cynradd	✓	Ysgolion arbennig	✓
Ysgolion uwchradd	✓	Ysgolion a cholegau arbennig annibynnol	☐
Ysgolion pob oed	✓	Gwasanaethau addysg llywodraeth leol a chonsortia rhanbarthol	✓
Ysgolion annibynnol	☐	Arall (rhowch fanylion):	☐

Rhan 1: Fframwaith arolygu cyffredin Estyn

Mae'r fframwaith arolygu cyffredin yn rhoi gwybod i bawb beth rydym yn edrych arno mewn arolygiad. Ar hyn o bryd, mae pum maes arolygu (MA) eang. Mae arolygwyr yn gwerthuso pob maes ar wahân ac yn adrodd ar eu canfyddiadau, ynghyd â rhoi gradd grynodol.

Mae rhagor o wybodaeth am ein fframwaith arolygu cyffredin i'w gweld ar ein gwefan: <https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu/esbonio-arolygu/fframwaith-arolygu-cyffredin>

C1: Pa mor bwysig ydyw ein bod yn parhau i arolygu pob un o'r meysydd hyn?

	Pwysig iawn	Pwysig	Ddim yn bwysig iawn	Ddim yn bwysig o gwbl	Ddim yn siŵr
Maes arolygu 1: Safonau Safonau disgyblion, y cynnydd y maent yn ei wneud a pha mor dda maent yn datblygu eu medrau	☐	✓	☐	☐	☐
Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu	✓	☐	☐	☐	☐
Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu Ansawdd yr addysgu, y cwricwlwm a darpariaeth i ddisgyblion i ddatblygu eu medrau	✓	☐	☐	☐	☐
Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad Cymorth i ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig a'r rhai a all fod yn dueddol o dangyflawni; datblygiad personol, ysbrydol, moesol a diwylliannol; trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu	✓	☐	☐	☐	☐
Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth	✓	☐	☐	☐	☐

Ansawdd yr arweinyddiaeth a rheolaeth; gwella ansawdd darpariaeth; dysgu proffesiynol a defnyddio adnoddau					
--	--	--	--	--	--

Defnyddiwch y blwch isod i roi awgrymiadau ynghylch:

- 1) unrhyw feysydd y dylem roi mwy o flaenoriaeth iddynt yn ein harolygiadau
- 2) neu feysydd y mae angen i ni roi llai o flaenoriaeth iddynt nag ydym ar hyn o bryd.

Mae yna orgyffwrdd rhwng **Maes Arolygu 1: Safonau** a **Maes Arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu** fyddai'n golygu, efallai, y byddai modd edrych arnynt ochr yn ochr yn hytrach nag o dan penawdau ar wahân.

Yn yr un modd, mae yna orgyffwrdd rhwng **Maes Arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu** a **Maes Arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad**.

Efallai y byddai cyfuno'n meysydd uchod yn arwain at edrych ar y materion mewn dull mwy cyd-destunol, ac yn caniatáu arolygwyr i ffurfio barn mwy crwn a chydgyssylltiedig.

O ran **Maes Arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu**, teimlwn bod angen i'r Fframwaith newydd fod yn glir mai lles y gymuned ysgol gyfan sydd dan sylw, gan gynnwys staff.

Rhaid sicrhau, dan **Faes Arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth** bod y diffiniad o 'arweinwyr a rheolwyr' yn cynnwys y corff llywodraethu.

Rhan 2: Graddau crynodedol

Ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio'r graddau crynodedol a'r disgrifiadau canlynol yn ein hadroddiadau i ddisgrifio agweddau ar waith darparwyr.

Graddau crynodedol	Ystyr y farn
Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella

Rydym yn cynnig rhoi'r gorau i roi graddau crynodedol ar gyfer pob maes arolygu yng ngwaith ysgolion ac UC'Dau o Fedi 2021 ymlaen. Yn hytrach, byddem yn ysgrifennu ein gwerthusiadau a'n barnau ar gyfer pob maes arolygu yn y fframwaith yn naratif yr adroddiad. Rydym yn credu y bydd hyn yn helpu ysgolion ac UC'Dau i ganolbwyntio ar y negeseuon yn yr adroddiad, yn hytrach nag ar raddau crynodedol. Bydd hyn yn helpu ysgolion ac UC'Dau i ddysgu oddi wrth yr arolygiad a chynllunio gwelliannau. Rydym wedi arbrofi â'r dull hwn yn ein harolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol a theimlwn ei fod yn gweithio'n dda.

Byddwn yn parhau i roi crynodedb yn nodi cryfderau'r ysgol/UCD a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Byddwn hefyd yn ei gwneud yn glir mewn adroddiadau arolygu o hyd pan fydd angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig ar ysgol, sef lefelau gweithgarwch dilynol statudol sydd wedi'u rhagnodi mewn deddfwriaeth.

C2: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynnig i roi'r gorau i ddefnyddio graddau crynodedol ar gyfer pob maes arolygu?

Cytuno'n gryf ✓	Cytuno ☐	Anghytuno ☐	Anghytuno'n gryf ☐	Ddim yn siŵr/ Dim barn ☐
---------------------------	------------------------------------	---------------------------------------	--	---

Defnyddiwch y blwch isod i roi eich barn a datgan y rheswm/rhesymau pam rydych wedi dewis yr opsiwn uchod:

Cytunwn yn llwyr â'r rhesymeg a amlinellir uchod. Gall graddau crynodedol roi pennawd a/neu ddehongliad simplistig, gyda nifer fawr ymhlith y cynulleidfaoedd targed ddim yn mentro dim pellach na'r gradd grynodedol i ddarllen y farn ehangach, mwy cytbwys a chyd-destunol yn y naratif.

Rhan 3: Gweithgarwch dilynol mewn ysgolion a gynhelir

Yn ystod arolygiad, mae arolygwyr yn ystyried p'un a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr ysgol. Mae gwelliant sylweddol a mesurau arbennig yn lefelau gweithgarwch dilynol statudol, sydd wedi'u rhagnodi mewn deddfwriaeth. Bydd y lefelau gweithgarwch dilynol hyn yn parhau.

Mae adolygu gan Estyn yn weithgarwch dilynol anstatudol. Mae arolygwyr yn gwirio cynnydd ysgolion mewn adolygiad gan Estyn drwy adolygiad wrth y ddesg, a gallant ymweld â'r darparwr i wirio cynnydd rhyw flwyddyn ar ôl yr arolygiad.

Rydym yn ystyried a oes angen adolygu gan Estyn arnom o hyd. Ar hyn o bryd, mae adolygu gan Estyn ar gyfer ysgolion lle mae gan arolygwyr bryderon ynghylch agweddau ar waith yr ysgol/UCD, ond nad yw'r pryderon hynny'n ddifrifol. Gallai cael gwared ag ef alluogi arolygwyr i ganolbwyntio eu gweithgarwch dilynol ar yr ysgolion sy'n peri'r pryder mwyaf ac sydd yn y categori statudol gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig.

C3: A ddylem gael gwared ag adolygu gan Estyn?

Dylech ✓	Ni ddylech ☐	Ddim yn siŵr/Dim barn ☐
-------------	--	---

Os hoffech roi rhagor o sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y cynnig hwn, defnyddiwch y blwch sylwadau isod:

Cytunwn â'r cynnig. Rôl consortia rhanbarthol, ac efallai Awdurdodau Lleol, bellach yw'r math o gefnogaeth a ddisgrifir uchod.

Fodd bynnag, mi fyddai'n werthfawr pe byddai modd i Estyn ddisodli 'adolygu gan Estyn' gyda chytundeb ymhlith y rhanddeiliaid perthnasol eraill ar y camau dilynol anstatudol sydd angen eu cymryd, fel bod pawb yn gweithredu'n unedig ac yn bwrpasol.

Rhan 4: Arolygu Safon Uwch/dysgu galwedigaethol mewn adrannau chweched dosbarth ysgolion

Er 2017, rydym wedi cryfhau'r modd rydym yn adrodd ar adrannau chweched dosbarth ysgolion. Ar hyn o bryd, rydym yn ysgrifennu am y chweched dosbarth ar draws pob maes arolygu, ond nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei choladu mewn crynodeb cyffredinol am y chweched dosbarth. Hoffem adrodd ar safonau a darpariaeth adrannau chweched dosbarth ar wahân i'r prif adroddiad, er mwyn i'n gwerthusiadau fod yn gliriach i'r darlennydd.

C4: A ddylem fod ag adran ar wahân mewn adroddiadau arolygu ysgolion uwchradd i adlewyrchu safonau a darpariaeth yn y chweched dosbarth?

Dylech ✓	Ni ddylech ☐	Ddim yn siŵr/Dim barn ☐
-------------	--	---

Os hoffech roi rhagor o sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y cynnig hwn, defnyddiwch y blwch sylwadau isod:

Er bod dosbarthiadau chwech yn rhan ganolog o nifer fawr o ysgolion, maent hefyd yn wahanol mewn nifer o ffyrdd. Byddai'n ddefnyddiol iawn cael adran benodol mewn adroddiadau arolygu ysgolion sy'n ymdrin â'r chweched dosbarth. Tybiwn y bydd hynny'n bwysicach fyth wrth symud i gyfeiriad y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Serch hynny, ni ddylid osgoi cyfeirio at y chweched dosbarth yng ngweddill yr adroddiad ysgol pan fo hynny'n berthnasol ac yn briodol.

Rhan 5: Cyfnod rhybudd

Rydym yn rhoi rhybudd o arolygiad i ddarparwyr. Mae hyn oherwydd ein bod yn rhoi amser i rieni, disgyblion, staff a llywodraethwyr lenwi holiaduron cyn-arolygiad.

Rydym hefyd yn caniatáu amser i'r Arolygydd Cofnodol gysylltu â'r darparwr a chynllunio gweithgareddau'r arolygiad.

Yn ein hymgynghoriad i baratoi ar gyfer y newidiadau yn 2017, roedd llawer o ymatebwyr o blaid lleihau'r cyfnod rhybudd. O ganlyniad, er 2017, mae darparwyr ar draws y rhan fwyaf o sectorau yn cael 15 diwrnod gwaith o rybudd cyn arolygiad craidd. Nid ydym yn rhoi gwybod i ddarparwyr am arolygiad yn yr hydref cyn y chwe wythnos o wyliau haf mwyach.

Rydym yn cynnig lleihau'r cyfnod rhybudd i 10 diwrnod gwaith. Bydd hyn yn rhoi amser i rieni, disgyblion, staff a llywodraethwyr lenwi'r holiaduron cyn-arolygiad o hyd, a hefyd yn lleihau'r amser y bydd ysgolion ac UC'Dau yn aros o'r adeg y cânt eu hysbysu hyd at ddechrau'r arolygiad.

C5: Rydym yn cynnig lleihau'r cyfnod rhybudd i 10 diwrnod gwaith o Fedi 2021 ymlaen. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

Cytuno'n gryf ☐	Cytuno ✓	Anghytuno ☐	Anghytuno'n gryf ☐	Ddim yn siŵr/ Dim barn ☐
---	-------------	---------------------------------------	--	---

Os hoffech roi rhagor o sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y cynnig hwn, defnyddiwch y blwch sylwadau isod:

Dylai'r lleihad yn y cyfnod rhybudd fynd law yn llaw gyda lleihad yn y gofynion cychwynnol ar ysgolion gan dimau arolygu, er enghraifft mewn perthynas â dogfennaeth. Yn y cyd-destun hwn, byddai'n fuddiol newid y diwylliant fel bod pawb yn derbyn bod ysgol yn cael ei gweld a'i harolygu 'fel ag y mae' yn hytrach nag 'ar ei gorau.'

Rhan 6: Sylwadau cyffredinol

Rydym wedi ymrwmo i wella'r ffordd rydym yn gweithio ac mae gennym ddiddordeb mewn clywed eich barn ar sut gallwn gyflawni ein gwaith yn fwy effeithiol.

C6a: Defnyddiwch y blwch isod i roi adborth ar unrhyw agwedd arall ar drefniadau arolygu Estyn.

C6b: Hoffem wybod beth yw eich barn ar effeithiau'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

--

Gwybodaeth ychwanegol

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch enw'r sefydliad yn y blwch isod.

UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)
--

Os ydych yn fodlon i Estyn gysylltu â chi eto mewn perthynas â'ch sylwadau, rhowch eich manylion cyswllt isod.

Rebecca Williams rebecca@ucac.cymru 01970 639950
--

Yng ngwanwyn 2020, byddwn yn sefydlu 'panel rhithwir i rieni/gofalwyr'. Bydd y panel yn galluogi rhieni/gofalwyr i rannu eu profiadau a dylanwadu ar benderfyniadau i helpu i lunio'r ffordd ymlaen i Estyn.

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r fforwm hwn, anfonwch neges e-bost atom yn: NIA21@estyn.llyw.cymru

Diolch i chi am gymryd rhan yn ein hymgyngghoriad. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a dderbyniwn i ddatblygu ein gwaith arolygu. Bydd y trefniadau arolygu newydd yn dechrau ym Medi 2021.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn am yr ymgynghoriad, anfonwch neges e-bost atom yn: consultation@estyn.gov.wales